CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 21, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Chwefror 21, 2017 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Geraint Evans a Huw A. Evans.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Henry M. Edwards.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 17, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 17, 2017

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/1/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Maent eisiau gwybod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'r asedau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Amgau mae holiadur i'w lenwi.

b. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Pwyllgor Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol.

c. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gan gynnwys:

a. rhybudd yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Chwefror 23, 2017 am 7.00yh. Amgáu mae agenda'r cyfarfod.

b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar Tachwedd 23, 2016.

c. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llandrindod ar Rhagfyr 9, 2016.

ch. Llythyr (8/2/2017) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn rhoi gwybod maent am gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd. Maent am ystyried maint Cyngor Gwynedd, a nifer a ffiniau ei ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Os mae sylwadau, maent eu hangen cyn Mai 31, 017.

Penderfynwyd trafod y mater mis nesaf.

d. Llythyr (15/2/2017) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

e. Llythyr (9/2/2017) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Amgau mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.

f. Llythyr (15/2/2017) oddi wrth Swyddog Gweithredol Llesiant, Cyngor Gwynedd. Amgau mae wybodaeth am gwasanaeth DEWIS Cymru sef wefan Llesiant. Maent angen ei arddangos mewn lle amlwg. Amgau mae ffurflen i'w chwblhau.

ff. Llythyr (21/2/2017) oddi wrth Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau Cynllunio:

i. NP5/54/15M. Defnydd o lety gwyliau fel llety anecs i'r prif dŷ. Ystumgwadnaeth, Llanfachreth.

Llythyr (2/2/2017) oddi wrth yr Awdurdod yn gofyn am eglurhad, gyda rhesymau cynllunio cadarn, pam fod y Cyngor yn cefnogi'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod nid oes eglurhad (4/2/2017).

i. NP5/54/438A. Cais ôl-weithredol i gadw adeilad ar gyfer defnyddio fel llety gwyliau, cadw storfa goed a sied, a cadw tanc septig. Beudy Rhif 1, Brithgwm Ganol, Coed Brithgwm, Brithdir.

Llythyr (2/2/2017) oddi wrth yr Awdurdod yn gofyn am eglurhad, gyda rhesymau cynllunio cadarn, pam fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais, wrth nodi fod y Cyngor wedi cefnogi cais Beudy Rhif 2 (NP5/54/437B) yn ddiweddar.

Rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod nid oes eglurhad (4/2/2017).

Atgoffwyd yr aelodau mae angen rhesymau pryd mae cais yn cael ei wrthod.

ii. NP5/54/456. Adeiladu estyniad i adeilad amaethyddol presennol. Tir ger Penarddwnion, Fach, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii. NP5/54/132F. Adeiladu bloc stabl ffram dur i gymryd lle y bloc stapl pren presennol. Tŷ March Gwyn, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/54/437B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais ôl-weithredol i gadw adeilad ar gyfer defnyddio fel llety gwyliau ynghyd a gosod tanc septig. Beudy Rhif 2, Brithgwm Ganol, Coed Brithgwm, Brithdir.

8. Materion Ariannol

a. Bil (3/2/2017) am £345.75 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2015/16 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2016 / 2017:

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Shelter Cymru, Marie Curie, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017, Y Groes Goch Brydeinig, Pwyllgor Llên y Llannau, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru, Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

c. Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Neuadd Brithdir: £500.00
Neuadd Rhyd y Gorlan: £500.00
Neuadd Llanfachreth: £500.00
Neuadd Rhydymain: £500.00
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200.00
Eisteddfod Llanfachreth: £200.00
Llên y Llannau: £50.00
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch: £50.00
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd: £250
Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017: £100.

Cyfanswm = £3,050.00

d. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2016-17. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 £7.42, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.42 x 601 = £4,459.42.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr, 2017: £1,136.23.

e. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2017: £7,605.23.

f. Incwm ar hyn o bryd: £6,753.45.
Gwariant ar hyn o bryd: £4,123.38 (gan gynnwys bil Swyddfa Archwiliad Cymru)
Gwariant ar Roddion fel y llynedd: £3,700.00
Felly bydd y Cyngor wedi gorwario £1,069.93 (heb gynnwys taliadau annisgwyl bydd angen eu gwneud).

ff. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2017 / 2018. Tâl Aelodaeth yw £119.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oed adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

Nid oedd mater arall.

Llofnod: Dyddiad: